

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed (349)

BEIRNIADAETH MEIRION WYNN JONES

Tywydd Garw

Mae *Galargan (Élégie)* i dair fiola a thri sielo yn agor yn effeithiol, gyda'r iaith gerddorol yn llwyddo i greu naws sy'n adlewyrchu'r teitl. Dyma sgôr llawn marciau llinynnol sy'n gymorth i'r perfformwyr. Mae'r defnydd o harmoni moddal yn gweithio'n dda ar y cyfan. Yr her yn yr arddull yma (sy'n gyfarwydd i ni o sgoriau ffilm) yw i fod yn gyson o ran iaith.

Mae'r strwythur ABA yn gweithio, ond y gwendid i mi yw deunydd yr adran ganol. Er fy mod yn hoffi'r harmoni rhwng bb. 41-47 (a bb. 49-55), dydw i ddim yn gweld y cordiau *pizzicato*, na'r barrau firtuosig (bb. 42, 44 a 50, er enghraifft) yn tyfu'n naturiol o'r gerddoriaeth flaenorol. Byddai'n syniad hefyd ailedrych ar bb. 65-69, er mwyn creu linc mwy effeithiol mewn i *Tempo I*.

Mae'r diwedd glo o b. 90 ymlaen yn gweithio'n dda, yn enwedig y *Tierce de Picardie* yn b. 96. Mae gan y cyfansoddwr yma y potensial i ddatblygu ei lais, a chryfhau ei neges.